

## Arweiniad ar blismona etholiadau a refferenda

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2016

Ar gyfer Arfer Proffesiynol Awdurdodedig gweler:

[www.app.college.police.uk/app-content/policing-elections](http://www.app.college.police.uk/app-content/policing-elections)

I gael mwy o wybodaeth gweler:

[www.electoralcommission.org.uk/cymru/electoral-fraud-responsibilities](http://www.electoralcommission.org.uk/cymru/electoral-fraud-responsibilities)

### Cyflwyniad

Sylwer y mae'n rhaid i rôl yr heddlu mewn etholiadau a refferenda gael ei gweld yn rhywbeth diduedd a theg. Mae llawer o droseddau etholiadol penodol a rhai troseddau cyffredinol y dylai heddwision fod yn benodol ymwybodol ohonynt. Nid yw'n fwiad i hon fod yn rhestr gynhwysfawr a dylid ceisio cyngor gan uwch swyddog, eich SPOC, neu'r CPS os bydd angen.

Mae gan yr holl heddluoedd Bwynt Cyswllt Penodol (SPOC) am gyngor mewn perthynas ag etholiadau a refferenda ar naill ai lefel rheoli uned neu heddlu.

Mae modd cysylltu â'ch SPOC cyngor ar etholiadau a refferenda drwy ystafell rheoli eich heddlu.

Mae Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (RPA 1983) yn rheoleiddio cynnal cofrestru etholiadol ac etholiadau Seneddol y DU. Bydd gan bob etholiad a refferendwm ei ddeddfwriaeth ei hun, ond mae troseddau ar y cyfan yn debyg i'r rheiny yn RPA 1983.

Mae rhan fwyaf y troseddau o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (RPA 1983) wedi'u dosbarthu fel rhai llwgr neu anghyfreithlon. Mae **gweithrediadau llwgr** yn dditiadwy gyda chosb uchafswm o garchar am flwyddyn a/neu ddirwy, ac eithrio troseddau personadu a gwneud cais ffug i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy, lle'r gosb uchaf yw carchar am hyd at ddwy flynedd a/neu ddirwy. Mae **arferion anghyfreithlon** yn droseddau diannod ac nid oes mwyafswm i'r lefel o ddirwy y gellir ei rhoi.

### 1 Llwgrwobrwyath

Mae person yn euog o lwgrwobrwyath os ydynt yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn rhoi unrhyw arian neu'n caffael unrhyw swydd i neu ar gyfer unrhyw bleidleisiwr, er mwyn cymell unrhyw bleidleiswr i bleidleisio neu beidio â phleidleisio dros ymgeisydd neu opsiwn penodol; neu i bleidleisio neu atal rhag pleidleisio. Gweithrediad llwgr, a113 RPA 1983.

### 4 Personadu

Mae'n drosedd i unrhyw unigolyn bleidleisio fel rhywun arall (waeth a yw'r person hwnnw yn fyw neu'n farw neu'n berson ffug), naill ai drwy'r post neu yn bersonol mewn gorsaf bleidleisio fel etholwr neu ddirprwy. At hynny, gellir pennu bod yr unigolyn sy'n pleidleisio yn berson sy'n euog o bersonadu os byddant yn pleidleisio fel person y mae ganddynt sail resymol dros gredu ei fod yn farw neu'n ffug, neu lle mae ganddynt sail resymol dros dybio nad yw'r penodiad dirprwy mewn grym bellach. Gweithrediad llwgr, a60 RPA 1983.

Mae'n drosedd cyflawni, cynorthwyo, cefnogi, cyngori neu gaffael y drosedd o bersonadu.

### 2 Tretio

Mae person yn euog o dretio os naill ai cyn, yn ystod neu ar ôl etholiad neu refferendwm maent yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn rhoi neu'n darparu (neu'n talu'n llwyr neu'n rhannol gost rhoi neu ddarparu) unrhyw fwyd, diod, adloniant neu ddarpariaeth er mwyn dylanwadu ar unrhyw bleidleiswr i bleidleisio neu atal rhag pleidleisio. Gweithrediad llwgr, a114 RPA 1983.

### 3 Dylanwad gormodol

Mae person yn euog o ddylanwad gormodol os ydynt yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn defnyddio neu'n bygwth defnyddio grym, trais neu ataliaeth, neu achosi neu fygwth achosi anaf, difrod neu niwed er mwyn cymell neu orfodi unrhyw bleidleiswr i bleidleisio neu atal rhag pleidleisio. Gall person hefyd fod yn euog o ddylanwad gormodol os byddant yn gweithredu gyda'r bwriad o rwystro neu atal y pleidleisiwr rhag arfer ei hawl i bleidleisio'n rhydd. Gweithrediad llwgr, a115 RPA 1983. Gall gynnwys bygythiadau o niwed o natur ysbrydol.

## Camau a awgrymir ym mhob achos

- Cadw tystiolaeth.
- Parchu cyfrinachedd dogfennau a seliwyd a cheisio cyngor cyn eu hagar.
- Pan ddaw dogfennau etholiadau a refferenda yn dystiolaeth mewn trosedd bosib, dylai'r dull cadw gan yr heddlu gynnwys ymgynghori â'r swyddfa etholiad i gytuno ar ffordd ymlaen sy'n fuddiol i bawb.
- Gweithredu'n bositif:
  - Ystyriwch wahodd y parti am gyfweiliad o dan rybudd.
  - Ystyriwch arestiad a24 PACE (fel a ddiwygiwyd gan y Ddeddf Troseddau Difrifol a Drefnwyd a'r Heddlu 2005).
- Ystyriwch gyngor gan SPOC yr heddlu ac Adran Troseddau Arbennig Gwasanaeth Erllyn y Goron.
- Rhowch wybod i'r Swyddog Canlyniadau, y Swyddog Cyfrif Lleol a'r Comisiwn Etholiadol drwy SPOC yr heddlu.

Rhaid dod ag erlyniadau o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 o fewn 12 mis o gomisiynu'r troseddau. O dan amgylchiadau eithriadol gellir ymestyn hyn i heb fod yn hwy na 24 mis os na fu unrhyw oedi gormodol.

### 5 Cais ffug i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy

Mae'n drosedd gwneud cais ffug i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy **gyda'r bwriad** o amddifadu person arall o bleidlais neu gaffael pleidlais neu arian neu eiddo nad oes gan berson yr hawl iddynt.

Yn benodol, mae'n drosedd i:

- wneud cais am bleidlais drwy'r post

neu ddirprwy fel person arall (yn fyw, yn farw neu'n ffug)

- fel arall gwneud datganiad ffug mewn perthynas â chais am bleidlais drwy'r post neu drwy ddirprwy
- cymell Swyddog Cofrestru Etholiadol neu Swyddog Canlyniadau neu Swyddog Cyfrif Lleol i anfon gohebiaeth mewn

perthynas â phleidlais drwy'r post neu drwy ddirprwy i gyfeiriad nad yw wedi'i gytuno gan y pleidleisiwr

- achosi i ohebiaeth o'r fath beidio gael ei dosbarthu i'r derbynnnydd bwriedig.

Gweithrediad llwgr, a62A RPA 1983.

Mae hefyd yn drosedd cynorthwyo neu gefnogi comisiynu'r troseddau uchod.

## 6 Troseddau pleidleisio lluosog, drwy ddirprwy a throseddau pleidleisio eraill

Mae'n anghyfreithlon pleidleisio mwy nag unwaith ar gyfer etholiadau i'r un corff etholedig neu fwy nag unwaith yn yr un refferendwm.

Mae'n anghyfreithlon pleidleisio ar ran person arall oni bai mai chi yw'r dirprwy a benodwyd yn swyddogol. Mae hefyd yn anghyfreithlon i ddirprwy a benodwyd yn swyddogol pleidleisio i fwy na dau o bobl nad ydynt yn aelodau agos o'i deulu yn yr un etholiad (h.y. yr un ward neu etholaeth) neu'r un refferendwm.

Mae pleidleisio pan o dan analluogrwydd cyfreithlon i bleidleisio hefyd yn drosedd.

Mae cymell neu gaffael person arall i gyflawni un o'r troseddau uchod hefyd yn drosedd.

Mae'r rhain yn weithrediadau anghyfreithlon, a61 RPA 1983.

### Cofiwch

- gadw tystiolaeth (ee CCTV, fforensig, *R v Turnbull*)
- ceisio cyngor goruchwyliwr

Derbyniwch arweiniad gan Swyddogion Llywyddu a'u staff o fewn gorsafocdd pleidleisio.

## Mae atal yn well nag erlyn

Mae'r cyfle i bleidleisio yn gonglfaen democratiaeth ac yn fater hawliau dynol.

Mae hwyluso pleidleisio heddychlon ac effeithiol yn gonsym sylfaenol i'r heddlu.

Gellir atal neu leihau cyfleoedd ar gyfer troseddau cofrestru neu bleidleisio drwy weithredu positif gan yr heddlu.

## 7 Cyfrinachedd

Dylai pawb sy'n cymryd rhan yn y broses etholiadol fod yn ymwybodol o gyfrinachedd y bleidlais. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn rhoi i bawb sy'n bresennol wrth agor neu gyfrif papurau pleidleisio ran o a66 o RPA 1983. Gallai unrhyw berson a geir yn euog o dorri'r gofynion cyfrinachedd fod wedi cyflawni trosedd diannod gyda chosb uchafswm o chwe mis yn y carchar neu ddirwy o £5,000.

Cofiwch mae hyn yn gymwys i'r heddlu hefyd. Peidiwch â gofyn sut mae rhywun wedi pleidleisio nac agor amlen papurau pleidleisio wedi'i seilio nac amlen ddychwelyd.

Tramgwydd diannod, a66, RPA 1983.

## Troseddau eraill

Mae hefyd rhai troseddau nad ydynt yn rhai etholiadol a allai fod yn berthnasol, fel:

- gwneud datganiad ffug o dan Ddeddf Anudoniaeth 1911
- ffugio; defnyddio offeryn ffug o dan Ddeddf Ffugio 1981
- cynllwynio i dwyllo
- troseddau ymosod, trefn gyhoeddus a difrod troseddol.

Sicrhewch fod SPOC eich heddlu yn cael ei hysbysu am unrhyw drosedd cysylltiedig ag etholiad neu refferendwm.

Sicrhewch fod pob trosedd (fel uchod) yn cael ei gofnodi yn unol â rheolau cyfrif y Swyddfa Gartref. Gellir cael cyngor ar Gronfa Ddata Cyfreithiol Cenedlaethol yr Heddlu, mewnwyd yr heddlu a thrwy eich SPOC.

Gallai Swyddog Llywyddu alw ar heddwys i symud rhywun allan o Orsaf Pleidleisio lle bydd person yn methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd cyfreithiol Swyddog Llywyddu. Gallai diffyg cydymffurfio pellach â chais gan yr heddlu fod gyfystyr â rhwystro heddwys neu dorheddwch.

## Rhifwyr

Mae'n arfer hir sefydledig i ymgeiswyr, eu hasiantau ac ymgyrchwyr i benodi 'rhifwyr', wedi'u lleoli y tu allan i'r orsaf pleidleisio i gofnodi pwy sydd wedi pleidleisio a gweld a yw eu cefnogwyr wedi dod i bleidleisio. Lle mae rhifwyr, neu eraill yn aflonyddu ar bleidleiswyr, yn gosod dylanwad gormodol neu'n rhwystro'r orsaf pleidleisio, gallai'r Swyddog Llywyddu geisio cymorth gan yr heddlu i ddatrys y mater.

## 8 Gwybodaeth gofrestru ffug a chais pleidleisio drwy'r post/drwy ddirprwy ffug

Mae'n drosedd darparu gwybodaeth ffug mewn perthynas â chofrestru etholwyr i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol at unrhyw ddiben sy'n gysylltiedig â chofrestru etholwyr. Mae hefyd yn drosedd darparu gwybodaeth ffug mewn cysylltiad â chais am bleidlais drwy'r post neu drwy ddirprwy. Mae gwybodaeth ffug yn cynnwys llofnod ffug.

Mae hon yn drosedd ddiannod o dan a13D, RPA 1983, gyda chosb uchafswm o chwe mis o garchar neu ddirwy o £5,000. Yn wahanol i'r drosedd a62A (gweler 5 drosodd), nid oes angen sefydlu bwriad i ennill, neu amddifadu person arall o bleidlais, arian neu eiddo.

### Materion eraill

Byddwch yn ymwybodol o'r dyletswydd cyffredinol i waredu gwrthwahananiaethu a meithrin perthnasau da yn unol ag a149 Deddf Cydraddoldebau 2010.

Mae pleidleisio cyhoeddus yn rhoi cyfle i'r heddlu hybu cysylltiadau cymunedol ardderchog ym mhob ffordd.

## Pleidleisio drwy'r post

**Pleidleisiau drwy'r post:** anogir ymgeiswyr, canfaswyr, asiantau ac ymgyrchwyr i beidio â thrin pleidleisiau drwy'r post. Dylent gynghori pleidleiswyr nad ydynt yn gallu dychwelyd eu pleidleisiau yn bersonol i ddefnyddio ffrindiau neu eu teulu i drosglwyddo eu pleidlais.

**Cofiwch:** nid yw cael pleidlais drwy'r post sy'n berchen i rywun arall yn eich meddiant ynddo'i hun yn anghyfreithlon. Fodd bynnag, lle y ceir bod gan rywun ac eithrio aelod o staff y Swyddog Canlyniadau neu staff y Swyddog Cyfrif sawl un neu nifer uchel o'r rhain, yna dylid ystyried camwedd posib.